UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Newidiadau i’r trefniadau apelau derbyn i ysgolion

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona Davies

Sefydliad (os yw’n berthnasol): UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 8 Mawrth 2023 i:

Y Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau
Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi’r ffurflen yn electronig a’i hanfon i’r cyfeiriad isod:

e-bost: SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno y dylai Rheoliadau 2005 a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion gynnwys opsiwn ar gyfer cynnal apelau o bell?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os ydych chi'n anghytuno, awgrymwch gynigion amgen neu roi adborth pellach.

**Sylwadau ategol**

Mae'r opsiwn o gynnal apêl o bell yn hwyluso pethau ac yn arbed amser a chostau. O'i gweinyddu'n iawn, nid ydym yn gweld bod unrhyw reswm pam nad yw'r ffordd hon yn cynnig ffordd deg ac effeithiol o gynnal apêl – gweler sylwadau pellach mewn ymateb i Gwestiwn 7.

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno bod y ffurfiau a ganlyn yn caniatáu ar gyfer gwrandawiad apêl teg a thryloyw?

| Ffurf | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb | ✓ | ☐ | ☐ |
| O bell (dros y ffôn) | ☐ | ☐ | ✓ |
| O bell (cynhadledd fideo) | ✓ | ☐ | ☐ |
| Cyflwyniad ysgrifenedig | ☐ | ☐ | ✓ |

**Sylwadau ategol**

Ymddengys fod gallu 'gweld' a 'chlywed' unigolion yn bwysig mewn sefyllfa o'r fath hon, os yw hynny'n bosibl. Wrth gwrs, mae eithriadau pan nad yw'n hi'n bosibl i hyn ddigwydd. Eithriadau prin ddylai achlysuron o'r fath fod. Nid yw'n dilyn bod gwrandawiadau dros y ffôn neu gyflwyniad ysgrifenedig yn annheg ac nad ydynt yn dryloyw, ond mae cyfathrebu'n gallu bod yn gliriach o fod yn gallu gweld a chlywed unigolion.

**Cwestiwn 3i** – A ydych chi'n cytuno mai awdurdodau derbyn ddylai wneud y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnig gwrandawiadau apêl yn bersonol, o bell neu roi'r dewis o'r naill neu'r llall i'r rhai sy'n dod i'r gwrandawiad?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Os ydych chi'n anghytuno, awgrymwch pwy ddylai wneud y penderfyniad.

**Sylwadau ategol**

Lle bo hynny'n bosibl dylai pob parti gytuno ar y dull gorau o gynnal apêl. Lle nad yw hynny'n bosibl, mae hi'n dderbyniol mai'r awdurdodau derbyn ddylai wneud y penderfyniad terfynol ynghylch y dull o gynnal y gwrandawiad. Mewn rhai amgylchiadau a fyddai dau opsiwn yn cael eu cynnig?

**Cwestiwn 3ii** – Pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddod i'r penderfyniad hwn?

| |
|---|
| Yr egwyddor ddylai gael blaenoriaeth yw sicrhau tegwch i bawb. Dylid sicrhau nad oes neb dan anfantais oherwydd y modd y cynhelir y gwrandawiad apêl. |

**Cwestiwn 4** – A ydych chi'n cytuno y dylai apelau sy'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl dros y ffôn gael eu cyfyngu i adegau pan na fo modd defnyddio fideogynadledda am resymau'n ymwneud â chysylltedd neu hygyrchedd, a dim ond os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno ill dau yn cytuno?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'n bwysig sicrhau bod yr apelydd a'r swyddog cyflwyno yn cytuno â'r dull o gynnal y gwrandawiad apêl. |

**Cwestiwn 5** – A ydych chi'n cytuno y dylai apelau ond cael eu hystyried ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd dan yr amgylchiadau a ganlyn:

a) nid yw'r swyddog cyflwyno yn bresennol, ac mae'r panel apêl yn fodlon y gall ddatrys yr achos drwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr awdurdod derbyn os na fydd hynny'n rhoi'r apelydd dan anfantais?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

neu

b) mae'r apelydd yn peidio â dod neu'n methu dod i'r gwrandawiad ac mae'n anymarferol cynnig dyddiad arall?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dylid sicrhau bod pawb yn hapus gyda threfniadau o'r fath ac mae'n bwysig bod pawb yn cael chwarae teg. |

**Cwestiwn 6** – A ydych chi'n cytuno y dylai gwrandawiadau apêl hybrid fod yn opsiwn? (Ystyr 'hybrid' yw pan fo un neu ragor o'r cyfranogwyr yn ymuno o bell drwy fideo neu dros y ffôn ac un neu ragor ohonynt yn ymuno yn bersonol.)

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dylent fod yn opsiwn ond mae'n rhaid sicrhau bod pawb yn hapus gyda threfniadau o'r fath. Dylid sicrhau hefyd fod y dechnoleg yn gweithio'n iawn a bod y safon yn dderbyniol. |

**Cwestiwn 7** – A ydych chi'n cytuno y gellir cynnal gwrandawiad apêl hybrid mewn ffordd deg a thryloyw sy'n galluogi'r swyddog cyflwyno a'r apelydd i gyflwyno eu hachos?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gall gwrandawiad apêl hybrid fod yn deg a thryloyw os rhoddir rhai amodau yn eu lle e.e. safon y dechnoleg, sicrhau nad oes neb yn gwrando yn y cefndir ac yn cyfrannu at y drafodaeth (yn amlwg neu ynghudd**).** |

**Cwestiwn 8** (ar gyfer awdurdodau lleol) – A ydych chi'n cytuno y bydd y Cod Apelau arfaethedig yn arwain at gostau/arbedion newydd i awdurdodau lleol?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch pam a pha amcangyfrif y gellir ei wneud o'r costau/arbedion ychwanegol hyn – gall hyn gynnwys, er enghraifft, costau/arbedion yn ymwneud â threfnu, staffio, lleoliadau, teithio a thechnoleg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9** (ar gyfer ysgolion) – A ydych chi'n cytuno y bydd y Cod Apelau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau/arbedion i ysgolion?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch pam a pha amcangyfrif y gellir ei wneud o'r costau/arbedion ychwanegol hyn – gall hyn gynnwys, er enghraifft, costau/arbedion yn ymwneud â threfnu, staffio, lleoliadau, teithio a thechnoleg.

**Sylwadau ategol**

.

**Cwestiwn 10** – Bydd mân newidiadau drafftio technegol hefyd yn cael eu gwneud i sicrhau bod y Cod Apelau yn gyfredol – mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer addysgol eraill ac enwau adrannol. Nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych ar y newidiadau arfaethedig.

Dim sylwadau.

**Cwestiwn 11** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynnig i ganiatáu i wrandawiadau apêl gael eu cynnal o bell neu yn bersonol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Mae'n bwysig nad yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar iaith y gwrandawiadau. Os yw unigolyn yn dymuno i'r apêl gael ei gynnal yn y Gymraeg, yna dylid sicrhau bod aelodau eraill y panel yn gallu siarad Cymraeg. Os nad yw hynny'n bosibl (ac eithriadau prin ddylai'r sefyllfaoedd hynny fod), rhaid sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu o'r safon uchaf ar gael fel bod modd cynnal y gwrandawiadau yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn unol â dymuniadau'r sawl sy'n gorfod cyfrannu at y drafodaeth, a hynny heb amharu ar safon y gwrandawiad. Gall dibynnu ar gyfieithiad o dan unrhyw amgylchiadau andwyo safon y drafodaeth, ond gall fod yn fwy andwyol ac yn fwy lletchwith byth pan fo'r cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein ac yn rhithiol, os nad oes sylw wedi ei roi o flaen llaw i sicrhau ansawdd a) y cyfieithiad b) y dechnoleg.

**Cwestiwn 12** – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r polisi arfaethedig i ganiatáu cynnal gwrandawiadau apêl o bell neu yn bersonol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Os nad oes dewis arall ond defnyddio cyfieithydd, mae'n bwysig sicrhau bod y ddarpariaeth gyfieithu o'r un ansawdd ar gyfer gwrandawiadau wyneb yn wyneb, hybrid a rhithiol. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, mae'n rhaid sicrhau bod pob unigolyn yn cael pob chwarae teg, pa bynnag iaith y dewiso ei defnyddio (gweler y sylwadau mewn ymateb i gwestiwn 11). Mae'n bwysig nad yw cynnal cyfarfodydd drwy gyfieithiad yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar ansawdd y drafodaeth a rhaid sicrhau nad oes unrhyw gamddeall neu gamddehongli oherwydd bod rhywun wedi clywed rhywbeth 'drwy gyfieithiad'.

**Cwestiwn 13** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.
Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

| |
|---|
| Nid oes sylwadau i'w hychwanegu yma. |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐